# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion (EOC(3)-10-08)

**Dyddiad: Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9.15 – 11.40am**
**Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn Bresennol

Ruth Marks MBE, Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
Andrew Stallard, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
Kieran Carr, Deafblind UK
Shelley McCain, Deafblind UK

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis. Roedd Joyce Watson yn dirprwyo ar ei ran. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y lleihad yn aelodaeth y Pwyllgor yn dilyn y cynnig yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mehefin a diolchodd i Christine Chapman, Joyce Watson, Nick Ramsay a Chris Franks am eu cyfraniadau.

#### Eitem 2: Comisiynydd Pobl Hyn Cymru

2.1 Rhoddodd Ruth Marks MBE gyflwyniad ar ei gweledigaeth ar gyfer y rôl ac ymatebodd i gwestiynau gan yr Aelodau.

### Camau i'w cymryd:

Cytunodd Ruth Marks i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda chanlyniad ei thrafodaethau ar y mater o "awr y dydd o awyr iach "yn y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru sydd ar ddod.

Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon copi electronig o Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio "Tai ar gyfer Pobl Hyn "at Ruth Marks.

### Eitem 3: Dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg

#### EOC(3)-10-08(p.1)

3.1 Ymatebodd Kieran Carr, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Shelley McCain, Rheolwr Prosiect Cysylltiadau Cymreig Deafblind UK i gwestiynau gan yr Aelodau.

### Camau i'w cymryd:

Kieran Carr i anfon manylion, yn cynnwys costau, am y 14 ffurf amgen ar gyfer dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi at y Cadeirydd

Kieran Carr i anfon copi o'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys o dan A7 Deddf Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 1970

Kieran Carr i anfon enghreifftiau o arferion gorau sefydliadau sy'n defnyddio gwahanol ffurfiau i gyhoeddi gwybodaeth.

Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor a'i gyhoeddi ar y wefan.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn faint o awdurdodau lleol Cymru sydd â Pholisi Gwybodaeth Hygyrch a beth yw eu cynnwys.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn faint o awdurdodau iechyd Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol sydd â Pholisi Gwybodaeth Hygyrch a beth yw eu cynnwys.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at yr RNIB a'r RNID i ofyn am eu Polisïau Gwybodaeth Hygyrch.

## Eitem 4: Papur i'w Nodi

**EOC(3)-10-08(p.2): Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) – Polisi Gwybodaeth Hygyrch Drafft**

4.1 Nodwyd y papur.

## Eitem 5: Cytunodd y pwyllgor fynd i sesiwn breifat